**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mawrth 2011**

## GRŴP YMATEB I DDIGWYDDIADAU AR Y MÔR (MIRG)

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn edrych am gefnogaeth barhaol yr Awdurdod i gynnal darpariaeth y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad ar y Môr (MIRG) yn y tymor byr o leiaf. Mae'r adroddiad yn darparu'r cefndir ar y darlun cenedlaethol o ran y gefnogaeth barhaol gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau hefyd.

## Cefndir

2 Lansiwyd MIRG yn ffurfiol gan Alistair Darling (Ysgrifennydd Trafnidiaeth bryd hynny) ym mis Ebrill 2006. Roedd hyn o ganlyniad i'r prosiect "Sea of Change" sefydlwyd ar ôl tân ar fferi Norsea ym mis Medi 2002. Sefydlwyd MIRG i gynorthwyo gyda digwyddiadau yn ymwneud â thân, peryglon cemegol a damweiniau diwydiannol ar y môr.

3 Dylid nodi fod gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA) ddyletswydd i anfon, trefnu a thasgu adnoddau i ymateb i bobl mewn perygl ar y môr. Mae MIRG yn darparu gwasanaeth wedi ei warantu i'r Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Mae hyn yn cael ei reoli drwy Femorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r MCA. Mae costau i'r Asiantaeth yn gysylltiedig â gwella hyfforddi ac offer y Gwasanaeth Tân ac Achub a darparu rheolwr cyswllt.

4 Ar hyn o bryd, mae pymtheg o'r tri deg naw Gwasanaeth Tân ac Achub arfordirol wedi ymrwymo rhyw 650 o ddiffoddwyr tân i gefnogi MIRG. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Tân ac Achub

Gogledd a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r manteision i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn y ddarpariaeth o hyfforddiant ac offer gwell. Mae hyn yn cynorthwyo'r ymateb i danau ar longau sydd mewn porthladdoedd sy'n rhan o ddyletswydd statudol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Credir fod cost lawn y swyddogaeth hon i'r Asiantaeth oddeutu £550,000 y flwyddyn.

**Gwybodaeth**

5 Yn dilyn Adolygiad Gwario Cynhwysfawr y Llywodraeth, mae angen i'r MCA weithredu gostyngiad o 22% yn y gyllideb erbyn mis Mawrth 2015.

6 Ymgymerodd yr MCA ag adolygiad o'r anghenion i gynorthwyo gyda digwyddiadau yn ymwneud â thân, peryglon cemegol a damweiniau diwydiannol ar y môr gafodd ei adrodd ym mis Hydref 2010. Y pethau arwyddocaol adnabuwyd yn yr adroddiad oedd:-

- does dim dyletswydd statudol ar yr MCA na'r Gwasanaeth Tân ac Achub i wneud darpariaethau i ymateb mewn digwyddiadau 'ar y môr';
- er gwaethaf yr uchod, mae'r risg sy'n gysylltiedig gyda dyfroedd tiriogaethol y DU gymaint fel bod y ddarpariaeth o allu ymateb wedi ei gyfiawnhau;
- byddai amnewid masnachol o'r MIRG yn ddrud a byddai anfon allan yn achosi problem oherwydd prinder hofrenyddion masnachol;
- yr opsiwn mwyaf priodol adnabuwyd ar gyfer darpariaethau'r dyfodol o ymateb 'ar y môr' yw parhad o MIRG ond gydag adluniad i gyfateb yr adnoddau gyda'r risg adnabuwyd

7 Mae Gogledd Cymru, ynghyd â'r Gwasanaethau Tân ac Achub MIRG eraill wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân i adolygu strategaeth MIRG ac edrych i wella'r ddarpariaeth wrth leihau'r ymrwymiad adnoddau cyffredinol. Byddai'r strategaeth ddiwygiedig yn gweld y nifer o Wasanaethau Tân ac Achub sydd wedi ymrwymo i MIRG yn gostwng o bymtheg i ddeg. Byddai hyn yn gostwng y costau i'r MCA o bron i 36%.

8 Mewn cyfarfod Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân o Wasanaethau Tân ac Achub MIRG ym mis Tachwedd 2010, nododd llawer o'r Gwasanaethau oedd yn cyfranogi y byddent yn ei gweld hi'n anodd yn yr hinsawdd ariannol gyfredol i argymell parhad o'r ddarpariaeth MIRG os byddai arian gan yr MCA yn cael ei atal. Dyma'r safle a fabwysiadwyd gan Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

9 Derbyniwyd cadarnhad gan MCA mor ddiweddar â'r 16eg Mawrth 2011 y byddai'n parhau i ariannu darpariaeth MIRG yn ei fformat presennol am gyfnod o chwe mis o Ebrill 1af 2011.

10 Tra bod Cymdeithas y Prif Swyddogion wedi bod mewn trafodaeth gyda'r MCA, cafodd y Pwyllgor Dethol Trafnidiaeth (TSC) trawsbleidiol seneddol gyfarfod ar yr 8fed Chwefror 2011 i adolygu'r cynigion i foderneiddio'r MCA yn unol â'r gofyniad yng ngostyngiad y gyllideb. Yn dilyn tystiolaeth a ddarparwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig, mae'r TSC wedi penderfynu ei fod eisiau cynnal ymholiad llawn pellach i'r cynigion, gan gynnwys darpariaeth MIRG.

11 Mae'r TSC wedi gofyn am ragor o dystiolaeth erbyn 26ain Ebrill 2011. Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân yn gweithio ar dystiolaeth ychwanegol ar hyn o bryd i'w gyflwyno i'r TSC ac wedi awgrymu efallai byddai'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn dymuno ystyried darparu tystiolaeth o'u safbwynt lleol eu hunain. Bwriad y Prif Swyddog Tân yw darparu'r dystiolaeth awgrymwyd.

12 Tra bod y prosesau enwyd yn flaenorol yn parhau, mae Cymdeithas y Prif Swyddogion yn gwneud ymdrech i sicrhau'r arian angenrheidiol ar gyfer strategaeth MIRG yn y dyfodol tu hwnt i Hydref eleni.

13 Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân yn amcangyfrif fod cost cynnal y ddarpariaeth gan wasanaeth unigol yn £40,000 y flwyddyn. Ar ôl archwilio cymwysterau costau cymwyseddau personél Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a chostau'r offer cysylltiedig, byddai costau cynnal y ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru am y flwyddyn oddeutu £11,000 heb unrhyw gyfraniad gan yr MCA. Byddai parhau i ariannu'r gallu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf yn rhoi amser i ail-werthuso'r safle oherwydd bod y darlun cenedlaethol yn newid. Yn naturiol,

byddai hyn yn cynnwys amser gweithredu strategaeth ymadawiad o MIRG os na fyddai'n ddichonadwy i'r Awdurdod gynnal ei aelodaeth o'r Grŵp.

14 Oherwydd yr amodau ariannol anodd sy'n wynebu'r Awdurdod yn 2011/12, wedi ei osod yn erbyn cost gymharol fychan o gynnal gwasanaeth MIRG ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf o leiaf, efallai bydd Aelodau'n teimlo ei bod hi'n addas defnyddio cyfran fechan o danwariant ragamcanol eleni fel darpariaeth i liniaru alldyniad cefnogaeth ariannol MCA.

**Argymhelliad**

15 Argymhellir fod Aelodau yn:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) parhau i gefnogi MIRG o'r 1af Ebrill gan ddefnyddio arian o flwyddyn ariannol eleni, wedi ei gapio ar £11,000 nes bod darlun cliriach o ymrwymiadau'r dyfodol yn cael ei bennu;

(iii) cytuno fod unrhyw arian heb ei wario o'r ddarpariaeth o £11,000 yn cael ei ddychwelyd i gronfa'r Awdurdod; a

(iv) nodi bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn y man pan fydd y darlun cenedlaethol yn gliriach.